

# CYNGOR CAERDYDD

COFNODION



## CYFARFOD Y CABINET: 21 MEDI 2023

Aelodau Cabinet yn Bresennol: Y Cyngorydd Huw Thomas (Arweinydd)  
Y Cyngorydd Peter Bradbury / Julie Sangani  
Y Cyngorydd Sarah Merry  
Y Cyngorydd Lynda Thorne  
Y Cyngorydd Christopher Weaver  
Y Cyngorydd Caro Wild  
Y Cyngorydd Jen Burke  
Y Cyngorydd Norma Mackie / Ash Lister  
Y Cyngorydd Dan De'Ath

Gwylwyr: Y Cyngorydd Rodney Berman  
Y Cyngorydd John Lancaster

Swyddogion: Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol  
Chris Lee, Swyddog Adran 151  
Richard Crane, ar ran y Swyddog Monitro  
Claire Deguara, Swyddfa'r Cabinet

Ymddiheuriadau: Y Cyngorydd Russell Goodway  
Paul Orders, y Prif Weithredw

### **COFNODION Y CYFARFOD CABINET A GYNHALIWDYD AR 12 GORFFENNAF 2023**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023.

### **DERBYN ADRODDIAD YMCHWILIAD PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT O'R ENW AMGUEDDFA CAERDYDD**

Datganodd y Cyngorydd Bradbury ddiddordeb personol yn yr eitem hon.

Cyflwynodd y Cyngorydd Wong Adroddiad Ymchwiliad Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ynghylch Amgueddfa Caerdydd Mae gan yr adroddiad ymchwiliad 48 o ganfyddiadau allweddol a 19 o argymhellion.

**PENDERFYNWYD:** derbyn adroddiad Ymchwiliad Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant o'r enw "Amgueddfa Caerdydd" a darparu ymateb o fewn dau gylch.

## **DIWEDDARIAD AR Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN**

*Datganodd y Cynghorydd Wild fuddiant rhagfarnol yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried.*

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno'r gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'r adroddiad yn manylu ar y camau nesaf ar gyfer cyflawni ac yn tynnu sylw at gynllun cyflawni diwygiedig.

Nodwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i gyflwyno rhaglen o weithgareddau ar gyfer blwyddyn un o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Yn y cofnod hwn cafodd cyfanswm o £5,204,258 ei wario hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr ychwanegiadau at broffil blwyddyn un.

**PENDERFYNWYD:**

1. cymeradwyo Rhaglen ac Adolygiad drafft y Gronfa Ffyniant Gyffredin fel y nodir yn Atodiad A.
2. dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i wneud mân newidiadau i'r Rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin y cyfeirir ati yn argymhelliad 1 uchod os oes angen yn dilyn unrhyw drafodaethau pellach gyda'r sefydliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 29.
3. cymeradwyo'r cyllid sydd i'w ddyrannu ar gyfer cyflawni'r prosiectau a nodwyd ym mharagraffau 30 i 31.
4. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd i ddyrannu unrhyw danwariant rhaglen i'r cynllun Galwad Agored a nodwyd ym mharagraffau 16 i 21.
5. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau i ddod ag unrhyw drefniadau grant i ben o ganlyniad i'r Alwad Agored fel yr amlinellir ym mharagraff 21.

## **MONITRO CYLLIDEB MIS 4**

Cafodd y Cabinet fanylion am sefyllfa monitro ariannol 2023/24 a ragwelir ar ddiwedd mis Gorffennaf 2023 (Mis 4) a addaswyd ar gyfer unrhyw welliannau sylweddol ers y dyddiad hwnnw, yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 9 Mawrth 2023.

Nodwyd bod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau digynsail o ran cadernid ariannol a fydd yn gofyn am fonitro a rheoli agos yn ystod eleni ac yn y tymor canolig. At hynny, adroddwyd bod y sefyllfa fonitro gyffredinol ym Mis 4, yn adlewyrchu cyfanswm gorwariant blynyddol net y Cyngor o £6.457 miliwn. Manylir ar y sefyllfa hon yn Atodiad 1 ac mae'n cynnwys cyfanswm gorwariant net y gyfarwyddiaeth o £7.457 miliwn, wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan danwariant yn erbyn y gyllideb ariannu cyfalaf o £1 miliwn.

Adroddwyd bod pwysau cyllidebol mewn sawl gwasanaeth, gyda'r pwysau mwyaf sylweddol yn wynebu'r gwasanaeth Plant a briodolir i'r costau lleoli ar gyfer plant yr awdurdod sy'n derbyn gofal. Priodolwyd pwysau yn Natblygu Economaidd i ddiffygion incwm, ac o fewn Addysg mae pwysau o fewn Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol, lleoliadau y Tu Allan i'r Sir ac Arlwyyo. Adroddwyd bod camau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i leihau a gwrthbwysu'r effaith y gorwariant.

**PENDERFYNWYD:**

nodi'r alldro ariannol refeniw rhagamcanol ar y sefyllfa ragamcanol ym Mis 4 2023/24

nodi'r gwariant cyfalaf a'r sefyllfa ragamcanol ym Mis 4 2023/24.

#### **RHEOLI RISG CORFFORAETHOL – CHWARTER 4 2022/23**

Derbyniodd y Cabinet y sefyllfa rheoli risg wedi'i diweddarau yn chwarter 4 ar gyfer 2022/23. Nodwyd y newid i'r risg gorfforaethol o amgylch monitro'r gyllideb. Nodwyd hefyd fod gan y gwasanaeth Tai a Chymunedau risg gynyddol newydd ar eu Cofrestr Risg Cyfarwyddiaeth sy'n monitro'r cymorth y mae trigolion y ddinas yn ei gael yn ystod yr argyfwng Costau Byw, sy'n fwy perthnasol wrth fynd i'r afael â'r pwysau economaidd presennol. Mae risg gynyddol hefyd ar Lety Dros Dro sy'n lliniaru yn erbyn llawer o'r risgiau a oedd yn cael eu cynnwys yn flaenorol yn y risg Diwygio Lles, sydd bellach wedi'i ddileu.

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r cynnwys a'r newidiadau arfaethedig wrth symud ymlaen yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

#### **DIWEDDARIAD AR GAFFAEL PARTNER DATBLYGWR AR GYFER PROSIECT ADFYWIO TREM Y MÔR.**

*Nid yw Atodiadau 2a a 2b, 3 a 4 i'w cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym mharagraffau 14, 16 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Datganodd y Cynghorydd Ash Lister fuddiant rhagfarnol yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod tra bod yn eitem hon yn cael ei hystyried.

Wrth ystyried yr eitem hon, gofynnodd y Cynghorydd Lancaster gwestiwn yn ymwneud ag atodiad cyfrinachol, cafodd y cyhoedd eu gwahardd o'r ystafell ac fe oeddod y gwe-ddarllediadau yn ystod y drafodaeth hon.

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses gaffael ar gyfer penodi partner datblygwr ar gyfer prosiect adfywio Trem y Môr.

Mae'r adroddiad yn manylu ar ganlyniad yr ymarfer gwerthuso tendr, yn nodi'r cynigydd a ffefrir ac yn nodi'r camau nesaf gofynnol. Nodwyd, er gwaethaf y camau a gymerwyd i annog cyfranogiad, mai dim ond un cais a dderbyniwyd.

PENDERFYNWYD:

1. cymeradwyo'r broses dyfarnu tendr ar gyfer prosiect adfywio Trem y Môr.
2. dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, i benodi'r cynigydd a ffefrir, gan gynnwys:
  - a. dirprwyo pob mater o'r fath sy'n deillio o'r adroddiad hwn sy'n ofynnol i gwblhau'r penodiad, gan gynnwys materion y cyfeirir atynt o fewn y cyngor cyfreithiol a eithriwyd fel y nodir yn Atodiad 4;
  - b. cymeradwyo geiriad terfynol y contract ac ymrwymo i'r Cytundeb Ymbarél ar gyfer y rhaglen gyfan gyda'r cynigydd a ffefrir;
  - c. Ymrwymo i Gontract Dylunio ac Adeiladu Tribiwnlys Adeiladu ar y Cyd (JCT) 2016 ar gyfer Cam 1 yn dilyn yr holl ddiwydrwydd dyladwy ôl-dendro angenrheidiol a chadarnhad bod y cynllun o fewn paramedrau hyfywedd; a
  - d. Ymrwymo i Gytundeb Gwasanaethau Cyn Contract (CGCC) ar gyfer camau yn y dyfodol.

## **MARCHNAD CAERDYDD**

***Nid yw Atodiadau 1, 3, 4, 5, 6 a 7 yr adroddiad hwn i'w cyhoeddi am eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi ei heithrio yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraffau 14, 16 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion ar gyfer Marchnad Caerdydd a'r strategaeth ariannu arfaethedig ar gyfer cyflawni'r cynigion. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen am welliannau sylweddol i adeilad rhestredig Gradd II i sicrhau bod y farchnad yn gallu parhau i weithredu'n effeithiol. Darperir manylion ymgysylltu trylwyr â thenantiaid, manylion camau arfaethedig y gwaith, a'r strategaeth ariannu yn yr adroddiad

PENDERFYNWYD:

1. cymeradwyo'r cynigion ar gyfer ailddatblygu Marchnad Caerdydd a'r strategaeth ariannu fel y nodir yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.
2. dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, y Swyddog Adran 151 a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro, i ymdrin â phob mater sy'n ymwneud â'r cynnig ailddatblygu gan gynnwys y cais am gyllid, caffaeliadau a grantiau mewn perthynas â marchnad Caerdydd (ac unrhyw gytundebau ategol) fel sy'n ofynnol mewn perthynas â'r mater hwn.

## **ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YR AWDURDOD LLEOL 2022/23**

Cabinet yn derbyn 14eg Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol. Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r cynnydd ar gyfer 2022/2023, manylion sut y bydd blaenoriaethau'n cael eu cyflawni fel yr amlinellir yn y Cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant ac Oedolion, Tai a Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer 2023/24 sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Mae adroddiad Adborth Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol a atodwyd i'r adroddiad yn crynhoi'r canmoliaeth, cwynion a'r sylwadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2022/23, cofnodwyd 685 o achosion o adborth ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr oedd 334 ohonynt yn ganmoliaeth a 351 yn gŵynion. Mae hon yn sefyllfa debyg o'i chymharu â 2021/22.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2022/23 i'w ystyried gan y Cyngor.

## **CYNYDDU'R DEFNYDD O DALIADAU UNIONGYRCHOL AR GYFER DARPARU GOFAL A CHYMORTH**

*Mae Atodiad 3 yr adroddiad hwn wedi'i eithrio rhag ei gyhoeddi yn unol â pharagraff 16 Rhan 4 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972*

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sydd ar y gweill i wella mynediad at daliadau uniongyrchol ar gyfer gofal a chymorth, gan gynnwys y cynnydd o ran creu cronfa o "ficro-fentrau" i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned. Nodwyd y bydd cefnogi creu cronfa o ficro-fentrau yn creu opsiynau ychwanegol ar gyfer bodloni'r galw cynyddol am ofal tra hefyd yn ehangu'r dewis sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth. Rhagwelir y bydd creu microfentrau yn cynyddu diweddariad taliadau uniongyrchol ac yn dileu rhwystrau sy'n atal defnyddwyr gwasanaeth rhag cyflogi cynorthwywyr personol. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y gyfradd daliadau uniongyrchol newydd arfaethedig o £16.86 yr awr ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir gan ficro-fentrau.

## PENDERFYNWYD:

1. nodi'r dull gweithredu sy'n cael ei ddefnyddio i annog taliadau uniongyrchol, gan gynnwys gwaith i gefnogi datblygiad microfentrau i ddarparu gofal a chymorth a'r adolygiad sydd ar y gweill i wella gwasanaethau cymorth ar gyfer y bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol.
2. cytuno ar gyfradd taliad uniongyrchol newydd o £16.86 yr awr ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir gan ficro-fentrau, i gydnabod eu costau ychwanegol ac i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gynaliadwy.

## RHESTR LEOL O ADEILADAU O DDIDDORDEB HANESYDDOL NEU BENSARNIOL

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer adolygiad cam cyntaf Rhestr Leol Caerdydd o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr ymrwymiad yn Cryfach, Tecach, Gwyrddach i warchod a dathlu adeiladau lleol. Nodwyd bod Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y gall awdurdodau cynllunio ddatblygu rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig nad oes ganddynt warchodaeth statudol, mae'r Rhestr Leol bresennol yn cynnwys 202 o geisiadau, ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Cynllunio ym 1997. Mae'r adroddiad yn nodi'r meini prawf dewis rhestru lleol, nodwyd y bydd canlyniadau'r adolygiad cam cyntaf a chanlyniadau ymgynghori yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet.

Defnyddio pwerau Gweithredu ar Frys i gyhoeddi cyfarwyddyd Erthygl 4 mewn perthynas â Chastell Rompney, Heol Gwynllŵg, Tredelerch, Caerdydd CF3 3EB.

## PENDERFYNWYD:

1. bod y meini prawf dethol rhestru lleol (fel y nodir ym mharagraff **Gwall! Nid yw'r ffynhonnell gyfeirio wedi'i ganfod.**) yn cael eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghori ar adolygiad cam cyntaf y rhestr leol, a bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet i'w cymeradwyo.
2. dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cynllunio i wneud, gwasanaethu a chadarnhau unrhyw gyfarwyddiadau Erthygl 4 Nad Ydynt yn Uniongyrchol yn y dyfodol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, a/neu Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, swyddog Adran 151 os ystyrir yn briodol gan y Pennaeth Cynllunio.

nodi'r defnydd o bwerau Gweithredu ar Frys i gyhoeddi cyfarwyddyd Erthygl 4 mewn perthynas â Chastell Rompney, Heol Gwynllŵg, Tredelerch, Caerdydd CF3 3EB.